PA MOR LLAWN PWRPAS YW'CH BYWYD CHI?

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi na ddaw bywyd llawn pwrpas dim ond o gael perthynas agos â Jehofah a byw mewn harmoni â'i fwriad i ddwyn yr holl greadigaeth i undod yng Nghrist. Gwnewch yn eglur sut gellir sicrhau'r berthynas hon â Jehofah, ac anogwch bawb i ymegnio yn y gwaith mwyaf buddfawr o ran pwrpas yn y byd, pregethu newydd da Teyrnas Dduw

PAM YDYM NI YMA? (8 mun.)

Mae dull byw llawer yn dangos nad oes ganddynt bwrpas mewn bywyd; mae eu holl fryd ar arian, adloniant, chwaraeon, rhyw, ac yn y blaen

Anaml y maent yn meddwl y tu hwnt i'r dyfodol agos

Mae eraill yn prysur ennill bywoliaeth, yn ymdrechu i grafu bodolaeth o ddydd i ddydd; teimlant yn aml eu bod ar felin draed

Mae methu â deall pam 'rydym yma yn ysgogi rhai i fyw bywyd diofal, byrbwyll, gan ymollwng i fwrw ymaith pob ymatal

Mae pobl sydd o ddifri' yn eu holi eu hunain beth yw gwir bwrpas bywyd. Ai dim ond mynd trwy gylchdro yn debyg i'r anifeiliaid ydyw, cael ein geni, bwyta, gweithio, epilio, heneiddio, a marw, neu a oes 'na reswm mwy aruchel dros ein bodolaeth?

Mae rheswm pam rhoddwyd bodolaeth i bob peth. Mae bodau dynol deallus yn adeiladu, yn cynhyrchu pethau i'w defnyddio ar gyfer rhyw bwrpas (Heb 3:4)

Drwy gyfrwng ei Air, mae Duw yn dweud wrthym beth yw pwrpas bywyd

Ef sy'n gwybod pam mae wedi'n gosod ni ar y ddaear, ac fe'n cynlluniodd ni mewn harmoni â'i ewyllys (*pe* 73-4)

Mae'n hanfodol dod i wybod ei fwriad yn ein creu os ydym i harmoneiddio'n bywyd â hynny (*lp* 183-4)

Mae gwerthfawrogi pam ydym yma yn ein dyrchafu ni o fodoli'n unig i fywyd rhagorach, buddiol (*g*89 2/8 26-7; *g*87 1/22 10-12)

MAE DUW YN HELPU'R RHEINY SY'N EI ADNABOD I FYW BYWYD LLAWN PWRPAS (17 mun.)

Mae gwybodaeth gywir am Dduw a chydweithredu ag ef yn ein helpu i sicrhau bywyd ystyrlon a gobaith ynglŷn â'r dyfodol (In 17:3)

Er ei fod yn anweledig, mae Duw yn ein gwahodd i geisio ei adnabod (Rhuf 1:19, 20; Act 17:26, 27)

Mae Duw yn ein helpu i'w adnabod yn bersonol trwy ddatguddio'i enw

I rai, bu gwybod Ei enw yn gam cyntaf tuag at fyw bywyd llawn pwrpas (*g*88 8/22 21-5; *g*86 7/22 17-20)

Ystyr yr enw yw "Mae E'n sicrhau bodolaeth"; mae'n dynodi mai Jehofah yw'r Bwriadwr (Ge 2:4, troednodyn *NW; it*-2 12; *kc* 17-18)

Mae defnyddio'i enw'n gyson yn adeiladu agosatrwydd ag ef

Mae dod i 'nabod nodweddion nodedig Duw yn ein helpu i fyw bywyd llawn pwrpas

Nid yw Duw yn hollbresennol, yn hytrach mae'n preswylio mewn un man arbennig (1Bren 8:49; Heb 9:24)

Mae ei lygaid yn edrych ar deulu dyn (Salm 11:4; Diar 15:3)

Ei brif briodoleddau yw cariad, doethineb, gallu, a chyfiawnder (Yn fyr, dywedwch sut y bu i ddysgu am y priodoleddau hyn a berthyn i Dduw helpu llawer i fyw â rhagorach pwrpas i'w bywyd. Gweler, er enghraifft, *w*89 1/15 24; *w*88 7/1 18-22)

Mae ei 'nabod yn golygu ei garu a'i werthfawrogi ef a'i nodweddion (Ex 34:6, 7)

Mae Duw yn helpu'r rhai sy'n ei 'nabod i fyw bywyd llawn pwrpas drwy gyfathrebu â nhw a gwrando ar eu gweddiau

Mae'n darparu cyfarwyddyd drwy ei Air ysgrifenedig ynghyd â help yr ysbryd sanctaidd i'w ddeall

Mae'r ysbryd yn helpu i blymio "hyd yn oed ddyfnderoedd Duw," gan gynnwys ei fwriad ar gyfer dyn (1Cor 2:10)

Gwneir darpariaethau ar gyfer cyngor angenrheidiol drwy'r henuriaid, cyfarfodydd y gynulleidfa, cynulliadau, cyhoeddiadau

Mae'n addo gwarchod eu calonnau a'u meddyliau os gwnânt eu deisyfiadau yn hysbys iddo (Phil 4:6, 7) (Enghraifft: *w*88 3/15 6-7)

Ystyr y gair Groeg a gyfieithir "meddyliau" yw "bwriad" neu "gynllun." Felly, gall tangnefedd Duw gadarnhau ein pwrpas Cristionogol (*w*88 2/15 18)

Mae'n amlwg fod Duw yn helpu rhai gonest eu calon i ddod i berthynas ag ef a byw bywyd llawn pwrpas (In 6:44; *w*79 4/15 14)

Mae ganddo ddiddordeb ym mhob unigolyn yn bersonol ac yn arbennig yn y rhai sy'n didwyll holi ynglŷn â'i fwriad (1Tim 2:4; *lp* 108-11)

Mae'n ein cymell i gyfeirio ein bywydau mewn ffordd sy'n ei foddhau ef

SAIL SICRHAU PERTHYNAS YSTYRLON Â DUW (13 mun.)

Ac yntau'n Greawdwr, mae gan Dduw berthynas â phawb (Act 17:25, 28)

Er mwyn cyflawni gwir bwrpas mewn bywyd, mae angen perthynas ystyrlon, agos iawn â Duw (*w*79 4/15 12-16)

Byddai pechadurusrwydd dynol yn gwneud perthynas â Duw yn amhosibl onibai iddo osod sail ar gyfer hynny drwy gyfrwng angau ac atgyfodiad Crist (Rhuf 5:8; 1Pedr 2:24)

Duw ei hun weithredodd yn gyntaf i sicrhau gwneud perthynas ag ef yn bosib', ond 'dyw hynny ddim yn golygu agosatrwydd otomatig ag ef

Mae gofyn i ni wneud camau penodol i sicrhau cyfeillgarwch â Jehofah yn ogystal â bywyd llawn pwrpas

(1) Rhaid ymdrechu i gymryd i mewn *wybodaeth gywir* a fydd yn adeiladu ffydd. (Heb 11:6) Yn ein hymdrech i wneud disgyblion, ceisio cyffwrdd calon myfyrwyr fel y'u hysgogir i fyw bywyd llawn pwrpas

(2) Dangos *edifeirwch,* nid dim ond sylweddoli fod ein cwrs gynt yn anghywir, ond dangos gwir dristwch (Act 3:19)

(3) *Troi oddi wrth* weithredoedd drwg i gwrs bywyd llawn pwrpas (Mc 13:10; Act 26:20; Heb 10:25)

(4) Ymhen amser, *ymgysegru* i Dduw (Mth 16:24; 1Pedr 2:21)

(5) Gofyn i Dduw am gydwybod dda drwy gael ein *bedyddio* yn arwydd o ymgysegru (1Pedr 3:21; *w*89 1/15 13-16, 19-20; *w*78 11/1 15)

Dyma pryd caiff disgybl gychwyn perthynas ystyrlon â Jehofah

(Adolygwch y pwyntiau uchod yn fyr gyda'r gynulleidfa)

'YDI'CH PWRPAS CHI MEWN BYWYD MEWN HARMONI AG UN DUW? (7 mun.)

Amlinellir bwriad Duw ynglŷn â'i greadigaeth yn Effesiaid 1:8-10 (*w*84 2/1 16-20)

Cynllun mawr Jehofah yw ei drefniadaeth rheolaethol, neu ei ffordd o drin pethau, sy'n cynhyrchu undod (*it*-1 48)

Teyrnas Dduw yw'r cyfrwng a ddefnyddia i sicrhau hyn

Mae "pob peth . . . ar y ddaear" 'nawr yn cael eu casglu'n dyrfa fawr i ffurfio sail y "ddaear newydd" (Dat 21:1)

Felly, y gwaith mwyaf buddfawr o ran pwrpas y medrwn fod yn cymryd rhan ynddo 'nawr yw pregethu "newydd da" Teyrnas Dduw a gwneud disgyblion a fydd yn ffurfio'r "dyrfa fawr" (Mth 24:14; 28:19, 20; Dat 7:9)

Crewyd dyn i wneud ewyllys Duw (Dat 4:11)

'Ydi'ch ffordd chi o fyw yn caniatáu i chi gael y rhan lawnaf bosib' yn y gwaith pregethu a gwneud disgyblion?

Yr ymdrech a wnawn yn y gweithgaredd hwn, fel mae'n hamgylchiadau yn caniatáu, fydd yn penderfynu drosom yr ateb i'r cwestiwn "Pa mor llawn pwrpas yw'ch bywyd chi?"

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)